YDCW CPRW Elusen Cefn Gwlad Cymru The Welsh Countryside Charity

Julie James AS
Y Gweinidog Newid Hinsawdd
Llywodraeth Cymru
5ed Llawr
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
CF99 1NA

11.07.2023

Annwyl Weinidog,

Parthed: Her Môr-lynnoedd Llanw

Ar ran ein miloedd o aelodau, hoffwn fynegi ein pleser o weld awydd Llywodraeth Cymru i archwilio ffurfiau ychwanegol o ynni adnewyddadwy. Fel elusen, mae sefydlu Her Môr-lynnoedd Llanw wedi ein calonogi'n fawr, ac rydym yn gobeithio y bydd, yn y pen draw, yn rhoi Cymru ar flaen y gad o ran ymchwil dechnolegol ar bŵer llanw.

Rydym ni, fel chi, yn gobeithio y bydd hyn yn arwain at gynigion ymchwil a fydd yn mynd i'r afael â'r rhwystrau rhag datblygu môr-lynnoedd llanw yng Nghymru a'u diffinio. Mae YDCW yn credu y bydd cynlluniau o'r fath yn arwain at wobrau enfawr, os gellir goresgyn rhai rhwystrau fel pryderon amgylcheddol a buddsoddiad ariannol.

Efallai y byddwch hefyd yn ymgymryd â chystadleuaeth mewn ysgolion i ennyn diddordeb myfyrwyr ar feddwl am ddatrysiadau eraill o'r fath, fel ôl-osod rhywbeth ar forglawdd Bae Caerdydd neu ddyffryn Elan i gynhyrchu pŵer.

Rwy'n siŵr eich bod yn hapus i glywed am ddatblygiadau diweddar mewn paneli solar gan ddefnyddio perofsgit[1] sydd wedi galluogi lefelau effeithlonrwydd o hyd at 30%. Rydym yn gobeithio, ac yn siŵr, y bydd y datblygiadau technolegol hyn mewn effeithlonrwydd yn parhau i wella yn y dyfodol.

Efallai eich bod hefyd yn ymwybodol bod ein chwaer-elusen yn Lloegr, CPRE, wedi lansio ei hymgyrch solar ar ben toeau yn ddiweddar[2], ag ymchwil newydd, manwl, yn dangos y gallai dros hanner y paneli solar sydd eu hangen i gyrraedd targedau sero net cenedlaethol y DU gael eu gosod ar ben toeau (tai a warysau) ac mewn meysydd parcio. Mae CPRE yn galw ar Lywodraeth y DU i ymrwymo i darged bod o leiaf 60% o'r ynni solar sydd ei angen erbyn 2035 yn cael ei gyflenwi trwy osodiadau solar ar ben to. Mae YDCW yn cefnogi ymgyrch CPRE yn llawn ac mae'n gweithio â sawl Prifysgol yng Nghymru i ymgymryd ag ymchwil debyg.

Gwn eich bod wedi siarad yn gyhoeddus sawl gwaith am eich awydd ai gael mwy o brosiectau ynni adnewyddadwy sy'n eiddo i'r gymuned ac o dan ei harweiniad. Yn sicr, nid oes llawer o brosiectau ynni adnewyddadwy sydd â chymaint o ganolbwynt ar y gymuned, y mae'n berchen arno ac yn ei arwain, â budd lleol, â solar ar ben toeau.

Ar hyn o bryd, a yw Llywodraeth Cymru yn ystyried:

a.) Cefnogi targed tebyg o'r fath ar gyfer solar ar ben toeau yma yng Nghymru?
b.) Sefydlu cronfa fuddsoddi i aelwydydd gael mynediad ati ar gyfer prynu a gosod paneli solar ar ben eu toeau eu hunain?
c.) Cyfarwyddo Cwmni Ynni Cymru, sydd newydd ei ymgorffori, i ymchwilio i botensial solar ar ben toeau?
d.) Mynnu bod yn rhaid i bob cartref newydd gael paneli solar?
e.) Sicrhau bod yn rhaid gosod paneli solar ar bob adeilad cyhoeddus?
f.) Deddfu bod paneli solar yn cael eu gosod ar bob maes parcio dan do, ac adeiladau masnachol fel warysau?
g.) Unrhyw gynllun arall i helpu i wireddu potensial llawn solar ar ben toeau?

Cred YDCW y bydd cynlluniau lleol iawn, sy'n rhoi budd i'r gymuned, fel solar ar doeau, ynghyd â gwelliannau effeithlonrwydd, fel cael eu hwyluso trwy gynllun NEST Llywodraeth Cymru, yn helpu i leddfu rhywfaint o'r straen ar y rhwydwaith trydanol, ac yn talu ar ei ganfed yn uniongyrchol i bob aelwyd.

Os oes unrhyw beth y gall YDCW fel elusen ei wneud i helpu i annog, darparu gwybodaeth, cefnogi, neu roi cyhoeddusrwydd i fentrau cefnogi cymunedau ac aelwydydd fel y rhai a grybwyllir uchod, rhowch wybod i ni a byddem yn hapus i helpu.

Edrychaf ymlaen at glywed oddi wrthych yn y dyfodol.

Yr Eiddoch yn Gywir,



Jonty Colchester
Cadeirydd
YDCW

Copi
Mark Drakeford, Prif Weinidog Cymru

1. https://www.wsj.com/articles/perovskite-solar-cells-push-bounds-of-efficiency-tapping-their-potential-will-be-challenging-d69c69e8
2. https://www.cpre.org.uk/news/rooftops-can-provide-over-half-our-solar-energy-targets-report-shows/